UKHCA
UNITED KINGDOM
HOME CARE ASSOCIATION
LIMITED
INCORPORATING HOME CARE
AND HOME NURSING SERVICES

Côd Ymarfer UKHCA



Fersiwn Clearprint - Maint lleiaf y testun: 14 pwynt

Tabl Cynnwys

Rhan 1: Cyflwyniad a diffiniadau 4

Ynghylch y Côd Ymarfer hwn 4

Dehongli a rhagor o wybodaeth 5

Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn y Côd hwn 5

Prif amcan gofal cartref 8

Rhan 2: Hawliau defnyddwyr y gwasanaeth 9

Urddas a gwerth 9

Dewis personol 9

Gwybodaeth 11

Cyflwyno gwasanaeth 12

Preifatrwydd a chyfrinachedd 12

Sylwadau a chwynion 12

Peidio â gwahaniaethu 14

Asesu 14

Rhyddid rhag camdriniaeth 14

Yr hawl i gymryd risgiau 14

Rhan 3: Gweithredu'r gwasanaeth 15

Safonau rheoli 15

Cofrestru a rheoleiddio 15

Iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol 16

Trefniadau recriwtio a fetio 16

Cofrestru gweithwyr 17

Hyfforddiant 17

Cydweddu 17

Bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth 17

Rhan 4: Cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithwyr gofal 18

Statws cyflogaeth gweithwyr gofal 18

Amodau gwaith 18
Cwynion yn erbyn gweithwyr gofal 19
Peidio â gwahaniaethu 19
Cyfrinachedd 19
Briffio 19
Gwybodaeth am hyfforddiant 20

Rhan 5: Cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol 20

Deddfwriaeth, rheoleiddio a chyngor cyfreithiol 20
Diogelu oedolion a phlant 20
Yswiriant 21

Rhan 6: Cyfrifoldebau cyffredinol 21

Masnachu teg 21
Cydweithrediad rhwng sefydliadau 21
Darparu gwybodaeth i UKHCA 21
Defnyddio enw a brandio UKHCA 22
Hawl i atgynhyrchu'r Côd Ymarfer hwn 22
Anfri 23

Atodiad A. Rheoleiddwyr statudol 24

Atodiad B. Rheoleiddwyr y Gweithlu 25

Rhan 1: Cyflwyniad a diffiniadau

Ynghylch y Côd Ymarfer hwn

1. Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig Cyf ("UKHCA" ac "y Gymdeithas") yw'r gymdeithas genedlaethol sy'n cynrychioli aelod-sefydliadau sy'n darparu gofal, gan gynnwys gofal nyrsio, i bobl yn eu cartref eu hunain. Cenhadaeth UKHCA yw cynrychioli, hyrwyddo a chefnogi darparu gofal cartref o safon uchel a hynny'n gynaliadwy.

2. Mae'r Gymdeithas yn ceisio meithrin arferion da, cyfnewid gwybodaeth a syniadau rhwng aelodau; monitro datblygiadau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol a allai fod o ddiddordeb i aelodau; ffurfio cysylltiadau â sefydliadau ac unigolion eraill sydd ag amcanion tebyg neu sympathetig ble bydd cydweithredu o fudd i aelodau a'r rhai sy'n derbyn gofal cartref, a darparu gwybodaeth am gynnal sefydliad gofal cartref.

3. Mae Côd Ymarfer UKHCA yn rhoi canllawiau fel bod sefydliad sy'n darparu gofal cartref yn gallu gweithredu yn y fath fodd fel bod:

- y safonau gofal uchaf yn cael eu darparu;
- hawliau a lles defnyddwyr y gwasanaeth o'r pwys mwyaf;
- hawliau a lles gweithwyr gofal yn cael eu diogelu.

4. Bydd holl aelod-sefydliadau UKHCA yn cytuno i ymrwymo i'r Côd Ymarfer a chydymffurfio ag ef. Bydd aelod-sefydliadau yn sicrhau bod eu staff yn bodloni gofynion y Côd. Mae hyn yn golygu y gall aelod-sefydliad ddatgan yn gyhoeddus ei fod yn "gweithio'n unol â safonau Côd Ymarfer UKHCA". Gellir rhoi copi o'r Côd hwn i weithwyr gofal, defnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr, yn ôl darpariaethau paragraff 89.

5. Er bod aelodaeth UKHCA yn gorfodi aelodau i gydymffurfio â'r Côd, ni all UKHCA ei hun warantu y bydd aelodau yn cydymffurfio â'r Côd, ond bydd UKHCA yn ymchwilio i gwynion yn erbyn aelod-sefydliadau yn unol â'r Côd hwn a Pholisi a Threfn Gwynion y Gymdeithas.

6. Drwy'r amser bydd UKHCA yn ceisio mynd i'r afael â materion cyfoes ym maes gofal cymdeithasol. Mae gwasanaethau newydd yn cael eu creu sy'n golygu y gall pobl barhau'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Nid yw'r gwasanaethau hyn o anghenraid yn cynnwys elfen o 'ofal personol' nac yn bodloni'r meini prawf presennol ar gyfer rheoleiddio statudol. Fodd bynnag, mae disgwyl i aelodau UKHCA sy'n gweithredu gwasanaethau o'r fath weithio i safon sy'n cydymffurfio â'r Côd hwn ac unrhyw ddeddfwriaeth neu ddarpariaethau rheoleiddiol perthnasol.

7. Daw aelodau UKHCA o bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae'r Gymdeithas o'r farn fod yr egwyddorion sydd yn y Côd hwn uwchlaw y rheolau cenedlaethol neilltuol a bennir gan bob un o weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig.

8. Nid yw'r Côd hwn yn caniatáu i aelodau UKHCA weithredu ar safon is na'r hyn sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth, rheoliadau neu safonau cenedlaethol cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd adegau pan fydd y Côd hwn yn disgwyl safon uwch na'r gofynion sylfaenol a nodir mewn rheoliadau neu safonau cenedlaethol perthnasol.

Dehongli a rhagor o wybodaeth

9. Mae'n bosib o bryd i'w gilydd y bydd y Gymdeithas yn cyhoeddi cyngor neu ganllawiau ar faterion yn ymwneud â dehongli'r Côd Ymarfer hwn. Bydd y rhain ar gael ar y Rhyngrwyd yn: www.ukhca.co.uk/members/codeofpractice.aspx. Gallwch ofyn i UKHCA bostio'r dogfennau diweddaraf atoch hefyd. Bydd raid i aelodau fod yn gyfarwydd â'r canllawiau diweddaraf.

10. Mewn unrhyw anghydfod ynghylch dehongli a/neu gymhwyso'r Côd, bydd penderfyniad Bwrdd UKHCA yn derfynol.

Diffiniad o'r termau a ddefnyddir yn y Côd hwn

11. Mae **aelod o UKHCA** ac **aelod-sefydliad** yn golygu sefydliad sy'n aelod cyfredol o Gymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig Cyf., yn ôl Erthyglau Cwmni y Gymdeithas o bryd i'w gilydd.

12. Mae **gofal cartref** a gwasanaeth gofal cartref yn golygu gofal cymdeithasol, personol, nyrsio neu wasanaeth domestig sy'n cael ei ddarparu y tu allan i leoliad sefydliadol, fel arfer yng nghartref defnyddiwr y gwasanaeth.

13. Mae **gweithiwr gofal** yn golygu un ai (a) person sy'n cael ei gyflogi gan aelod-sefydliad i ddarparu gwasanaeth gofal cartref i ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu (b) gweithiwr a gyflwynir gan aelod-sefydliad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi, ble nad oes gan yr asiantaeth reolaeth uniongyrchol dros y gweithiwr gofal yn ystod y cyfnod y byddant yn cael eu cyflogi gan ddefnyddiwr y gwasanaeth neu gleient.

14. Mae **rheolwr** yn golygu person sy'n gyfrifol am y sefydliad, am drefnu neu oruchwylio gwasanaeth gofal cartref ar gyfer aelod-sefydliad UKHCA, a'r rhai sy'n gyfrifol am ddewis, recriwtio a hyfforddi gweithwyr gofal. Y mae'r diffiniad hwn nid yn unig yn gymwys ar gyfer rheolwr/rheolwyr a gofrestrir gyda rheoleiddiwr statudol, ond hefyd i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth gofal cartref yn gweithredu'n effeithlon ac effeithiol.

15. Mae **defnyddiwr y gwasanaeth** yn golygu oedolyn neu blentyn sy'n derbyn gwasanaeth gofal cartref gan aelod-sefydliad.

16. Mae **gofalwr** yn golygu person sy'n darparu gofal i ddefnyddiwr y gwasanaeth yn rhinwedd perthynas bersonol. Mae'n bosib i ofalwyr gynnwys cynrychiolwyr, aelodau o'r teulu, cyfeillion neu gymdogion, ond nid yw'r term hwn yn cynnwys gweithwyr gofal.

17. Mae **aelod o'r teulu** yn golygu person sy'n perthyn i'r defnyddiwr y gwasanaeth trwy waed, priodas neu berthynas bersonol sylweddol arall.

18. Mae **cynrychiolydd** yn golygu person sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr y gwasanaeth. Gall hyn fod gyda chydsyniad ffurfiol defnyddiwr y gwasanaeth dan Atwrneiaeth Barhaus mewn perthynas â

materion ariannol neu Atwrneiaeth Arhosol dan ddarpariaethau Adran 9 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (MCA) mewn perthynas â materion ariannol a lles, neu y priodolwyd hawliau o'r fath iddo fel arall. Mewn sefyllfaoedd ble mae gan ddefnyddiwr y gwasanaeth ddiffyg galluedd meddyliol, y cynrychiolydd yw person â hawl cyfreithiol i weithredu ar ran defnyddiwr y gwasanaeth, er enghraifft Derbynnydd, Dirprwy neu Adfocad Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodir gan Lys Gwarchod neu dan yr MCA neu fel arall. Mae cynrychiolwyr yn fwy tebygol o fod yn aelodau o deulu a chyfeillion defnyddiwr y gwasanaeth, neu'n adfocadau sy'n derbyn tâl neu'n wirfoddol. Yn achos plant, mae'r cynrychiolwyr yn fwyaf tebygol o fod yn rhiant neu'n warcheidwad cyfreithiol. Yn y Côd hwn, nid yw'r term 'cynrychiolydd' yn cynnwys comisiynwyr.

19. Mae **cleient** yn golygu person, ac eithrio comisiynydd, sy'n trefnu neu brynu gofal cartref ar gyfer defnyddiwr y gwasanaeth. Mewn llawer o achosion, mae'n bosib mai'r cleient fydd defnyddiwr y gwasanaeth ei hun neu gall fod yn aelod o deulu defnyddiwr y gwasanaeth, neu ei gynrychiolydd.

20. Mae **corff comisiynu** a **chomisiynydd** yn golygu Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu gorff tebyg â chyfrifoldeb statudol i drefnu neu brynu gwasanaethau gofal cartref ar gyfer defnyddiwr y gwasanaeth neu, yn ôl y galw, yn gwmni yswiriant neu'n elusen brynu gofrestredig sy'n prynu gwasanaethau gan aelodau UKHCA.

21. Mae **rheoleiddiwr statudol** yn golygu prif reoleiddiwr statudol gwasanaethau gofal cartref yn yr awdurdod ble mae'r aelod-sefydliad yn gweithredu. Mae'r rheoleiddwyr yn cael eu rhestru yn Atodiad A.

22. Mae **rheoleiddiwr y gweithlu** yn golygu prif reoleiddiwr statudol y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae'r rheoleiddwyr yn cael eu rhestru yn Atodiad B.

23. Mae **galluedd meddyliol** yn golygu gallu unigolyn i wneud penderfyniad trosto'i hun mewn perthynas â mater ar yr adeg hanfodol. Mae diffyg galluedd meddyliol yn golygu methiant i wneud penderfyniadau o'r fath oherwydd nam neu gynnwrf yng ngallu'r meddwl neu'r ymennydd i weithio.

24. Mae **MCA** yn golygu (yng Nghymru a Lloegr) Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Prif amcan gofal cartref

25. Prif amcan gofal cartref yw darparu cefnogaeth fel bod modd gofalu am ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartref eu hunain am gyhyd â phosib, neu eu galluogi i ddychwelyd i'w cartref eu hunain o ysbyty neu lety yn rhywle arall, a thrwy hynny hyrwyddo gwir ddewis yn ymarferol rhwng gofal yn y cartref a gofal preswyl.

26. Rhaid i aelodau UKHCA gydnabod amrywiaeth ym mherthnasau, credoau a diwylliannau defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau eu teulu a'u cyfeillion. Felly dylai aelod-sefydliadau geisio darparu gwasanaeth priodol, sensitif sy'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth unigol.

27. Nod yr aelod-sefydliad yw darparu'r gofal angenrheidiol a phriodol i gyrraedd yr amcan hwn. Dylai'r gofal a ddarperir roi ystyriaeth i anghenion a dymuniadau defnyddwyr y gwasanaeth a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth, gyda lles corfforol, ysbrydol ac emosiynol o'r pwys mwyaf. Rhaid i aelod-sefydliadau ystyried anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn ogystal ag anghenion aelodau'r teulu, sy'n aml yn wahanol ac weithiau'n gwrthdaro, er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir yn briodol.

28. Dylai aelodau UKHCA dybio bob amser fod gan ddefnyddiwr y gwasanaeth alluedd meddyliol oni ellir dangos i'r gwrthwyneb a byddant yn cymryd pob cam ymarferol i gynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i wneud eu penderfyniadau eu hunain am bob elfen o'u gofal. Dylai dymuniadau a chyfranogiad defnyddiwr y gwasanaeth fod

o'r pwys mwyaf. Hyd yn oed os bydd diffyg galluedd meddyliol, dylid parchu dymuniadau a chredoau blaenorol defnyddiwr y gwasanaeth wrth ddod i unrhyw benderfyniad ar eu rhan, a dylai penderfyniadau o'r fath bob amser gael eu gwneud gan roi ystyriaeth i'w pennaf les.

29. Os bydd y gwasanaeth gofal cartref yn cael ei brynu gan gomisiynydd, mae'n parhau'n gyfrifoldeb ar y comisiynydd i sicrhau bod asesiad priodol o anghenion defnyddiwr y gwasanaeth wedi'i gynnal a'i gyfleu i'r aelod-sefydliad. Nid cyfrifoldeb yr aelod, dan yr amgylchiadau hyn (yn wahanol i ble bydd defnyddiwr y gwasanaeth neu ei deulu yn prynu gofal cartref yn annibynnol), yw cwblhau asesiad ffurfiol o'r anghenion ac nid yw aelod-sefydliad yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r rhai a nodwyd sy'n ofynnol i fodloni unrhyw anghenion a aseswyd gan y comisiynydd. Rhaid i aelodau gynnal asesiadau gofalus o ba adnoddau sy'n angenrheidiol i fodloni'r anghenion a aseswyd ac ni ddylent gytuno i fodloni'r anghenion a aseswyd oni bai fod y comisiynydd yn cytuno i ariannu'r lefelau gwasanaeth gofynnol.

Rhan 2: Hawliau defnyddwyr y gwasanaeth

Urddas a gwerth

30. Rhaid cydnabod a pharchu urddas a gwerth pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Yn benodol, ble bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar ran defnyddiwr y gwasanaeth, dylent gyfyngu cyn lleied â phosib ar hawliau a rhyddid y person hwnnw a rhoi ystyriaeth i unrhyw ddymuniadau a chredoau hysbys sydd gan yr unigolyn.

Dewis personol

31. Rhaid i aelodau UKHCA annog pob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth i arfer ei botensial llawn ef neu hi i wneud dewisiadau personol mewn perthynas â chyfleoedd a ffyrdd o fyw. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i anghenion a hawliau aelodau o'r teulu a gofalwyr i fyw eu bywydau heb ofynion neu bwysau afresymol. Dylai aelod-sefydliadau sicrhau bod yna ymgynghori uniongyrchol â defnyddiwr y gwasanaeth (neu ble bo'n briodol, ei gynrychiolydd) o ran

penderfyniadau ynghylch darpariaeth, graddau ac amseriad unrhyw ofal arfaethedig, yn ogystal ag o ran diddymu unrhyw ofal neu wasanaeth.

32. Os bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn methu cymryd rhan yn llawn yn y broses o gynllunio gofal, oherwydd diffyg galluedd meddyliol, dylid rhoi ystyriaeth serch hynny i'w ddymuniadau ef neu hi i'r graddau y cawsant eu mynegi ac y gellir eu cyflawni. Dylai'r sylw ganolbwyntio ar a oes gan ddefnyddiwr y gwasanaeth alluedd meddyliol cyfnewidiol. Os gellir oedi cyn gwneud penderfyniad ar ei ran hyd nes y bydd yn gallu chwarae mwy o ran, fe ddylai'r broses gael ei gohirio hyd nes y bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn gallu cymryd rhan yn llawn. Ym mhob achos, dylai buddiannau defnyddiwr y gwasanaeth gael ystyriaeth o'r pwys mwyaf, a dylai aelodau UKHCA gyfeirio at ddeddfwriaeth galluedd meddyliol a chodau ymarfer cysylltiedig i gael arweiniad pellach.

33. Os bydd gofal defnyddiwr y gwasanaeth yn cael ei brynu gan gorff comisiynu, bydd dewisiadau a blaenoriaethau defnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu bodloni i'r graddau ehangaf posib o fewn manyleb y comisiynydd. Gyda chytundeb defnyddiwr y gwasanaeth (neu ble bo'n briodol, gyda chytundeb ei gynrychiolydd) bydd aelod-sefydliadau yn rhoi gwybod i gomisiynwyr am sefyllfaoedd ble bydd manyleb y comisiynydd yn cyfyngu ar ddewisiadau personol defnyddiwr y gwasanaeth.

34. Ar sail natur agos gofal personol, a chan gyfeirio at baragraff 48 (isod) mae'n bosib y bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn gofyn am weithwyr gofal o gefndir diwylliannol, ethnig neu grefyddol tebyg, neu'n gofyn am weithiwr gofal o'r un rhyw. Ni ddylai ceisiadau o'r fath gael eu caniatáu oni bai fod yr aelod-sefydliad yn fodlon bod gwir ofyniad galwedigaethol i'r gweithiwr gofal fod o'r rhyw, diwylliant, ethnigrwydd neu'r grefydd dan sylw ac nad yw hyn yn groes i gyfraith atal gwahaniaethu.

35. Gall gwahaniaethu godi yn y berthynas gyda defnyddiwr y gwasanaeth a hefyd yn y berthynas gyda'r gweithiwr gofal. Mae aelodau mewn perygl o wynebu achos cyfreithiol a chyhoeddusrwydd anffafriol pan fydd achosion o wahaniaethu. Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ar unwaith gyda materion o'r fath.

Gwybodaeth

36. Mae gan bob un o ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr hawl i gael esboniad manwl o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Ac eithrio ble bydd gofal yn cael ei brynu gan gomisiynydd, dylai'r trefniadau rhwng yr aelod-sefydliad a defnyddiwr y gwasanaeth gael eu disgrifio mewn contract wedi'i ddrafftio'n glir neu ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth (ar ffurf hygyrch) sy'n cynnwys:

a. manylion llawn am y sefydliad, gan gynnwys ei statws masnachu;
b. y berthynas gytundebol rhwng yr aelod-sefydliad, defnyddiwr y gwasanaeth a'r gweithiwr/gweithwyr gofal
c. manyleb fanwl o'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu a sut bydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth hwnnw yn cael eu trefnu a'r amgylchiadau a'r trefniadau ar gyfer diddymu gofal;
d. unrhyw drefniadau dros gyfnod gwyliau a salwch;
e. unrhyw gostau i'w talu gan ddefnyddiwr y gwasanaeth neu'r cleient, a sut mae delio â'r costau ar gyfer canslo'n hwyr, absenoldeb dros dro, neu ddigwyddiadau annisgwyl;
f. cyfeiriad at drefn gwynion yr aelod-sefydliad, y rheoleiddwyr statudol perthnasol, y Côd Ymarfer hwn a statws cyfreithiol a manylion yr aelod-sefydliad;
g. unrhyw rwymedigaethau cytundebol i'w cyflawni gan ddefnyddiwr y gwasanaeth neu ei gynrychiolydd.

O ran paragraff 32, dylai defnyddwyr y gwasanaeth nodi eu bod yn derbyn y telerau uchod gyda'u llofnod neu dystiolaeth arall o gytundeb eglur a gafwyd cyn i'r gofal ddechrau.

37. Ym mhob achos, dylai'r aelod-sefydliad roi gwybod i ddefnyddiwr y gwasanaeth beth yw natur ei berthynas gytundebol gyda'r gweithiwr/gweithwyr gofal.

Cyflwyno gwasanaeth

38. Mae hawl gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i dderbyn y gofal a nodir yn eu cynllun gofal cytûn ac i'w cofnodion (gan gynnwys taflenni amser, anfonebau, cynlluniau gofal a siartiau meddyginiaethau) adlewyrchu'r gofal a gafwyd yn fanwl-gywir. Yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998, gall eu cynrychiolydd ofyn am gofnodion o'r fath a rhaid eu hanfon ati/ato.

39. Dylai newidiadau sy'n effeithio ar ganslo, amser dechrau, hyd ymweliad arfaethedig, neu newid yn y gweithiwr gofal ar y rhestr gael ei gyfleu i ddefnyddiwr y gwasanaeth, neu ei gynrychiolydd (ble bo'n briodol) yn ddiymdroi.

Preifatrwydd a chyfrinachedd

40. Rhaid diogelu hawliau defnyddwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd a gofalwyr i breifatrwydd a chyfrinachedd. Dylai gwybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu teuluoedd a gofalwyr fod ar gael i'r unigolion hynny ar eu cais, yn unol â deddfwriaeth diogelu data a dylid rhoi'r wybodaeth i asiantaethau eraill fel y mynnir gan y gyfraith, dan amgylchiadau eithriadol i atal niwed i ddefnyddiwr y gwasanaeth neu, gyda chaniatâd defnyddiwr y gwasanaeth neu (ble bo'n briodol) ei gynrychiolydd.

41. Bydd gan aelod-sefydliadau bolisïau ysgrifenedig priodol ar gyfrinachedd sy'n rhwymol ar staff. Dylai copi o'r polisi hwn fod ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr ar eu cais.

Sylwadau a chwynion

42. Rhaid anrhydeddu hawliau defnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr i wneud cwynion am y gwasanaethau a gânt gan aelod-sefydliadau.

43. Dylai aelod-sefydliadau sicrhau bod gweithwyr gofal yn hollol ymwybodol o'u hawl i gwyno wrth yr aelod-sefydliad am rywbeth y mae'r aelod-sefydliad wedi'i wneud neu y mae'r aelod-sefydliad yn ystyried ei wneud mewn perthynas ag ef neu hi.

44. Dylai aelod-sefydliadau fod â pholisi effeithiol ar gyfer "chwythu'r chwiban" er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal sy'n datgelu gwybodaeth ynghylch troseddau, methiannau o ran rhwymedigaethau cyfreithiol, camweinyddu cyfiawnder, iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd yn cael eu hamddiffyn.

45. Rhaid i aelod-sefydliadau sicrhau bod ganddynt drefn effeithiol ar gyfer cofnodi a delio â sylwadau a chwynion, gan gynnwys hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr o'u hawl i gwyno'n uniongyrchol wrth y rheoleiddiwr statudol. Hefyd, dylid cyfeirio at y posibilrwydd o gyfeirio cwynion at UKHCA, unwaith y bydd llwybrau eraill wedi'u dihysbyddu. Rhaid i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr gael manylion ysgrifenedig am drefn gwynion yr aelod-sefydliad.

46. Dylai aelod-sefydliadau gynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth a'u cynrychiolwyr i gyfeirio cwynion heb eu datrys at y sefydliad mwyaf addas. Yn gyffredinol, y rheoleiddiwr statudol fydd hwn.

47. Bydd UKHCA yn ymchwilio i gwynion am aelod-sefydliadau ble bydd, ym marn UKHCA:

a. y gŵyn yn ymwneud â thorri'r Côd Ymarfer hwn, **a**:
   i. y sawl sy'n cwyno wedi dihysbyddu trefn gwynion yr aelod-sefydliad, **a**:
   ii. (ble mae corff comisiynu wedi prynu gofal defnyddiwr y gwasanaeth) trefn gwynion y comisiynydd wedi'i ddihysbyddu, **a**:
   iii. ble nad oes rheoleiddiwr statudol i ymchwilio i'r gŵyn,

neu:

b. ble gallai gweithredoedd neu esgeulustod yr aelod, o'i brofi, ddwyn anfri ar y Gymdeithas.

Peidio â gwahaniaethu

48. Rhaid i aelod-sefydliadau beidio â gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr y gwasanaeth ar sail hil, cenedligrwydd, crefydd neu gred athronyddol debyg, oedran, rhyw neu dueddfryd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, anabledd neu safle cymdeithasol, ac ni chânt wahaniaethu rhwng defnyddwyr y gwasanaeth sy'n talu'n uniongyrchol am y gwasanaeth a'r rhai nad ydynt yn talu'n uniongyrchol.

Asesu

49. Mae hawl gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i gymryd rhan mewn asesiad gofalus a thrylwyr ac adolygiad rheolaidd o'u hanghenion a'u dymuniadau a'u gallu, a rhoi sylwadau ynghylch hyn. Os bydd aelod-sefydliad o'r farn bod asesiad a gyflawnir gan gorff comisiynu yn wallus, yn anghyflawn neu wedi dyddio, byddant yn hysbysu'r corff comisiynu am y pryderon hyn yn ddiymdroi.

Rhyddid rhag camdriniaeth

50. Mae hawl gan ddefnyddwyr y gwasanaeth i barhau'n ddiogel a rhydd rhag camdriniaeth gorfforol, seicolegol ac ariannol ac esgeulustra gan weithwyr gofal, aelodau o'r teulu, cyfeillion, cynrychiolwyr, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd neu gymdeithasol. Bydd aelod-sefydliadau yn gweithredu polisïau a threfniadau ar gyfer atal a rhoi gwybod am gam-drin. Bydd y polisïau a'r trefniadau hyn yn gyson â threfniadau lleol ar gyfer atal, ymchwilio a rheoli cam-drin oedolion a phlant a wneir gan y corff statudol priodol.

Yr hawl i gymryd risgiau

51. Mae aelodau UKHCA yn cydnabod hawliau defnyddwyr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau gwybodus sydd ag elfen o risg iddyn nhw eu hunain. Y maent hefyd yn cytuno nad yw defnyddwyr y gwasanaeth yn dioddef diffyg galluedd meddyliol yn syml oherwydd

eu bod yn dewis gwneud penderfyniad annoeth neu "ecsentrig". Fodd bynnag, os bydd yr aelod-sefydliad o'r farn bod penderfyniad o'r fath yn groes i bennaf les defnyddiwr y gwasanaeth, dylai hysbysu ac ymgynghori ag unrhyw gynrychiolydd perthnasol neu gyfranogwr arall (fel meddyg neu weithiwr cymdeithasol sydd hefyd yn gyfrifol am ofal defnyddiwr y gwasanaeth) ynghylch unrhyw weithredu arfaethedig.

52. Tra bo aelod-sefydliadau yn ceisio cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i arfer eu hawl i gymryd risgiau, rhaid iddynt gynnal diogelwch eu gweithwyr gofal. Mae'n bosib na fyddant yn gallu cydymffurfio, neu gefnogi, pob dewis a wneir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth bob tro.

Rhan 3: Gweithredu'r gwasanaeth

Safonau rheoli

53. Rhaid i aelod-sefydliad gael ei reoli ar sail busnes a sail ariannol gadarn er mwyn bodloni rhwymedigaethau cytundebol. Rhaid i aelod-sefydliadau recriwtio gweithwyr gofal a rheolwyr medrus ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gan ymateb yn hyblyg a chyfrifol i anghenion, amgylchiadau a gofynion newidiol.

54. Dylid arddangos safonau rheoli proffesiynol drwy'r holl sefydliad.

Cofrestru a rheoleiddio

55. Bydd aelod-sefydliadau yn sicrhau a chynnal eu cofrestriad gyda'r rheoleiddiwr statudol ble bydd gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, a bydd yn darparu tystiolaeth o hyn os bydd UKHCA yn gofyn am hynny. Bydd aelod-sefydliadau yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau a osodir ar eu cofrestriad gan y rheoleiddiwr statudol.

56. Os yw'r sefydliad yn gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi, byddant yn sicrhau copïau o unrhyw gymwysterau neu awdurdod perthnasol gan weithiwr gofal a chynnig darparu copïau i ddefnyddiwr y gwasanaeth. Byddant hefyd yn cytuno gyda'r

gweithiwr gofal y gellir datgelu'r tystlythyrau a gafwyd i ddefnyddiwr y gwasanaeth a bydd yn cynnig darparu copïau o'r tystlythyrau i ddefnyddiwr y gwasanaeth.

57. Bydd aelod-sefydliadau yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau fel cyflogwyr dan unrhyw gôd ymarfer a gyflwynir gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol cenedlaethol dros yr awdurdodaeth y maent yn gweithredu ynddi a bydd gofyn i'w gweithwyr gofal gydymffurfio a rhaid cymryd camau i gynorthwyo eu gweithwyr gofal i gydymffurfio.

Iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol

58. Mae aelod-sefydliadau yn gallu darparu ystod eang o wasanaethau, ond rhaid i ddarparwyr fod yn realistig ynghylch eu gallu i fodloni anghenion arbenigol. Rhaid i aelod-sefydliadau sicrhau bod pob gweithiwr gofal a bennir i gyflawni tasg wedi'i hyfforddi'n ddigonol, yn brofiadol ac yn cael cefnogaeth i wneud y dasg honno.

Trefniadau recriwtio a fetio

59. Rhaid i aelod-sefydliadau gadw at ragofalon priodol wrth recriwtio a dewis staff rheoli a gweithwyr gofal. Rhaid cael tystlythyrau ysgrifenedig o ddwy ffynhonnell o leiaf a, ble bynnag y bo modd, rhaid i o leiaf un o'r rhain fod gan y cyflogwr presennol neu'r cyflogwr mwyaf diweddar. Dylid sicrhau bod tystlythyrau yn ddilys a rhaid peidio â derbyn tystlythyrau agored. Rhaid i bob darpar weithiwr gofal gael ei gyfweld yn bersonol gan aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n addas.

60. Lle bo hawl i wneud hynny, bydd aelod-sefydliadau yn gwirio yn erbyn cofnodion troseddol a rhestrau gwahardd sy'n gweithredu yn yr awdurdodaeth y maent yn gweithredu ynddi. Bydd yr aelod yn cydymffurfio â'r codau ymarfer a'r canllawiau cyffredinol sy'n gymwys ar gyfer gwirio cofnodion troseddol.

Cofrestru gweithwyr

61. Lle bo'r gyfraith yn mynnu hynny, ni fydd aelod-sefydliadau ond yn darparu gweithwyr gofal sydd wedi'u cofrestru gyda'r rheoleiddiwr gweithlu cymwys, a restrir yn Atodiad B.

Hyfforddiant

62. Rhaid rhoi hyfforddiant cynefino i bob rheolwr ac (ac eithrio ble bydd yr aelod-sefydliad yn gweithredu fel asiantaeth gyflogi) i weithwyr gofal. Dylid darparu hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r dyletswyddau sydd i'w cyflawni, ble bo'n angenrheidiol.

63. Bydd aelod-sefydliadau yn annog eu gweithwyr gofal a rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau trwy hyfforddiant. Byddant yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol ar gyfer hyfforddiant cynefino, hyfforddiant sgiliau arbenigol, cymwysterau goruchwylio a galwedigaethol.

Cydweddu

64. Ni ddylai gweithwyr gofal ond gael cynnig aseiniadau sy'n cyd-fynd â'u hyfforddiant, profiad a gallu.

65. Wrth gyfateb gweithwyr gofal â defnyddwyr y gwasanaeth, dylai aelod-sefydliadau roi ystyriaeth i bersonoliaeth, anian, sgiliau, galluoedd a gwybodaeth. Ni fydd aelod-sefydliadau yn gwneud penderfyniadau gwahaniaethol anghyfreithlon ar ran defnyddwyr y gwasanaeth.

Bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth

66. Dylai aelod-sefydliadau sefydlu trefn sicrhau ansawdd sy'n cadw golwg reolaidd ar ba mor fodlon yw defnyddwyr y gwasanaeth gyda'r gwasanaeth a gânt.

Rhan 4: Cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithwyr gofal

Statws cyflogaeth gweithwyr gofal

67. Mae'r Côd Ymarfer hwn yn cydnabod bod y berthynas rhwng aelod-sefydliadau a gweithwyr gofal yn gallu amrywio yn ôl statws cyflogaeth y gweithiwr. Fodd bynnag, i'r graddau y gellir gwneud hynny, rhaid i bob aelod-sefydliad fynnu bod eu gweithwyr gofal yn cydymffurfio â safon Côd Ymarfer UKHCA a chôd ymarfer eu Cyngor Gofal Cymdeithasol cenedlaethol neu reoleiddwyr priodol eraill y gweithlu.

68. Rhaid i aelod-sefydliadau ddarparu datganiad o'u telerau ac amodau i weithwyr gofal yn unol â'r gofynion statudol sy'n berthnasol i'r berthynas sydd ganddynt â'r gweithiwr gofal.

Amodau gwaith

69. Rhaid i aelod-sefydliadau fod yn llwyr ymwybodol o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Rhaid i aelod-sefydliadau wneud yn siŵr, hyd y bo'n rhesymol, bod amodau ac arferion gwaith yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr yn y gwaith.

70. Rhaid tynnu sylw defnyddwyr y gwasanaeth, aelodau o'r teulu a chynrychiolwyr at unrhyw risg bosib i weithwyr gofal ac at eu dyletswydd gyffredinol i ddarparu amgylchedd gwaith diogel.

71. Os bydd raid i weithiwr gofal weithio yng nghartref defnyddiwr y gwasanaeth, rhaid i aelod-sefydliadau gynnal asesiad risg iechyd a diogelwch. Rhaid trafod yr asesiad risg gyda'r gweithiwr gofal cyn iddo orfod mynd i gartref defnyddiwr y gwasanaeth. Dylai aelod-sefydliadau hysbysu defnyddwyr y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr, neu ble bo'n briodol, y cleient neu aelodau o'r teulu, am yr angen i ystyried unrhyw alw am yswiriant cartref rhag unrhyw rwymedigaeth a cholled a ddioddefir gan weithiwr gofal, neu niwed damweiniol i

weithiwr gofal, a allai ddigwydd tra oedd ef neu hi yng nghartref defnyddiwr y gwasanaeth.

Cwynion yn erbyn gweithwyr gofal

72. Petai cwyn yn cael ei gwneud gan ddefnyddiwr y gwasanaeth, ei gynrychiolydd, aelod o'r teulu neu gomisiynydd am weithiwr gofal penodol, cyfrifoldeb yr aelod-sefydliad – cyn belled â bod ganddo rym i wneud hynny – yw sicrhau bod y gweithiwr gofal, ni waeth beth fo'i statws cyflogaeth, yn cael hawl i wrandawiad teg a bod gweithwyr gofal yn hollol ymwybodol o'r hawl hwnnw.

Peidio â gwahaniaethu

73. Rhaid i aelod-sefydliadau beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn gweithwyr gofal (nac yn erbyn pobl sy'n gwneud cais am swyddi fel gweithwyr gofal) ar sail hil, cenedligrwydd, crefydd neu gred athronyddol, oedran, rhyw neu dueddfryd rhywiol, anabledd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Cyfrinachedd

74. Rhaid diogelu hawl gweithiwr gofal i gyfrinachedd a rhaid peidio â dadlennu gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â cheisiwr gwaith heb ei ganiatâd ef neu hi ymlaen llaw, ac eithrio ar gyfer diben: ceisio gwaith ar gyfer y gweithiwr gofal; er dibenion unrhyw achos cyfreithiol (gan gynnwys cyflafareddu); i'r corff proffesiynol y mae'r gweithiwr neu'r ceisiwr gwaith yn aelod ohono; i reoleiddiwr statudol y gwasanaeth y mae ef neu hi'n gweithio ynddo neu i gorff statudol gyda chyfrifoldeb am fetio neu wahardd gweithwyr gofal o swyddi ym maes gofal cymdeithasol.

Briffio

75. Dylid cynnal asesiad risg yng nghartref defnyddiwr y gwasanaeth a hysbysu'r gweithiwr gofal am y casgliadau perthnasol cyn iddynt fynd at unrhyw ddefnyddiwr y gwasanaeth. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir cynnal yr asesiad risg yn union cyn cyflwyno gofal. Dylai gweithwyr gofal gael gwybodaeth fanwl, wedi'i diweddaru

am gyflwr, amgylchiadau ac anghenion gofal pob defnyddiwr y gwasanaeth y maent yn ei wasanaethu a, ble bo'n gymwys, manylion asesiadau risg a gofynion y corff comisiynu (os oes corff comisiynu). Rhaid cynnal cyswllt rheolaidd rhwng y sefydliad a'i weithwyr gofal er mwyn gallu rhoi gwybodaeth am anghenion defnyddiwr y gwasanaeth a rhoi cefnogaeth barhaus i'r gweithiwr gofal.

Gwybodaeth am hyfforddiant

76. Ble bydd hyfforddiant addas ar gael, cyfrifoldeb aelod-sefydliadau yw sicrhau bod gweithwyr gofal a rheolwyr yn cael eu hysbysu'n ddigonol ac yn derbyn mynediad teg at gyfleoedd o'r fath.

Rhan 5: Cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol

Deddfwriaeth, rheoleiddio a chyngor cyfreithiol

77. Rhaid i aelod-sefydliadau sicrhau eu bod yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran pob deddfwriaeth a rheoliad perthnasol a chyfredol. Gall hyn gwmpasu materion fel rheoleiddio gofal yn y cartref neu asiantaethau nyrsys, fel bo'n briodol; rheoleiddio asiantaethau cyflogaeth a busnesau cyflogaeth; rheoliadau iechyd a diogelwch; cyfraith cwmnïau ac elusennau; cyfraith ac arferion cyllid a thollau; diogelu data a phenderfyniadau a wneir gan y Swyddfa Masnachu Teg.

78. Mewn sefyllfaoedd ble bydd unrhyw amheuon gan aelod-sefydliadau am weithredu deddfwriaeth, dylent gael cyngor cyfreithiol priodol.

Diogelu oedolion a phlant

79. Bydd aelod-sefydliadau yn cydweithredu ag awdurdodau lleol, yr heddlu, a chyrff statudol eraill sydd â grym i gyd-drefnu ymchwiliadau i ddiogelu plant ac oedolion.

80. Bydd aelod-sefydliadau yn cyfeirio'n briodol at gofrestrau diogelu oedolion neu blant neu restrau gwahardd ac at y cyngor gofal

cymdeithasol neu'r corff proffesiynol priodol, ble bo'r rhain mewn grym.

Yswiriant

81. Rhaid i aelod-sefydliadau sicrhau bod ganddynt yswiriant digonol ar gyfer eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau statudol i weithwyr gofal, defnyddwyr y gwasanaeth, cleientiaid a phartïon eraill, ac unrhyw risgiau perthnasol eraill iddyn nhw eu hunain neu i'w busnes. Dylai aelod-sefydliadau ofyn am gyngor gan froceriaid yswiriant cymwys ynghylch lefel a natur yr yswiriant angenrheidiol.

Rhan 6: Cyfrifoldebau cyffredinol

Masnachu teg

82. Rhaid i aelod-sefydliadau gadw at y safonau gonestrwydd uchaf wrth hysbysebu, hyrwyddo a chyflwyno eu gwasanaethau a'u taliadau ac o leiaf gydymffurfio drwy'r amser â Chôd Ymarfer yr Awdurdod Safonau Hysbysebu o bryd i'w gilydd. Os cynigir cyflenwi nwyddau neu wasanaethau eraill, yn ogystal â gofal, a bod gan yr aelod-sefydliad fudd ariannol yn y trafodion hynny, rhai datgelu hyn i ddefnyddiwr y gwasanaeth.

Cydweithrediad rhwng sefydliadau

83. Rhaid i aelod-sefydliadau hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at ofal cartref yn gyffredinol a thuag at aelodau UKHCA yn benodol.

84. Os bydd camdriniaeth neu arferion gwael difrifol yn cael eu hamau gan sefydliad unigol neu gydweithwyr, rhaid tynnu sylw'r awdurdodau priodol at hyn ar unwaith.

Darparu gwybodaeth i UKHCA

85. Bydd aelod-sefydliadau yn hysbysu UKHCA yn brydlon am newidiadau ym manylion eu haelodaeth er mwyn i'r Gymdeithas allu parhau i hyrwyddo eu gwasanaethau i ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr a chomisiynwyr a sicrhau bod

gwybodaeth UKHCA am y sector gofal cymdeithasol yn cael ei chyflwyno'n fanwl a chywir.

86. Bydd aelod-sefydliadau yn ymdrechu'n rhesymol i ymateb i geisiadau am wybodaeth fel bod UKHCA yn gallu cynrychioli eu safbwyntiau wrth ymwneud â'r rhai sy'n llunio polisïau ac ymgymryd â dadansoddiad o'r sector gofal cartref.

Defnyddio enw a brandio UKHCA

87. Mae aelod-sefydliadau yn cydnabod bod pob hawl eiddo deallusol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hawlfraint yn eu cyhoeddiadau a'u nod masnach a hawliau cyfraith gwlad o ran logo UKHCA a'r brand yn perthyn i UKHCA. Ni fydd aelodau ond yn defnyddio brandio a logo UKHCA yn ei ffurf awdurdodedig a chyda chymeradwyaeth UKHCA. Rhaid peidio byth â defnyddio brandio mewn ffordd sy'n awgrymu bod UKHCA yn cefnogi cynhyrchion a gwasanaethau heb ganiatâd UKHCA ymlaen llaw. Bydd aelod-sefydliadau yn rhoi'r gorau ar unwaith i atgynhyrchu logo UKHCA a chyfeiriadau at aelodaeth o'r Gymdeithas os daw eu haelodaeth i ben neu os bydd y Gymdeithas yn diddymu'r aelodaeth, a byddant yn dychwelyd neu'n dileu pob dogfen neu enghreifftiau eraill o ddefnyddio'r logo a'r brand ar gais UKHCA.

88. Ni all aelod-sefydliadau siarad ar ran y Gymdeithas, na gwneud datganiadau ynghylch unrhyw safbwynt polisi sydd gan y Gymdeithas heb ganiatâd ymlaen llaw gan UKHCA, oni bai fod hynny er mwyn cyfeirio at ddatganiadau safbwynt gan UKHCA sydd wedi'u cyhoeddi. Ni fydd aelodau chwaith yn cymryd arnynt eu bod yn gynrychiolwyr UKHCA heb dderbyn awdurdod priodol gan Fwrdd UKHCA.

Hawl i atgynhyrchu'r Côd Ymarfer hwn

89. Gall sefydliadau sy'n aelodau llawn o UKHCA atgynhyrchu'r Côd Ymarfer hwn yn eu cyhoeddiadau, cyn belled bod y Côd yn cael ei atgynhyrchu'n llawn a heb newid y testun o gwbl. Rhaid cyfeirio'n benodol at y ffaith mai UKHCA yw tarddiad y Côd. Mae pob atgynhyrchiad arall o'r Côd hwn yn ddarostyngedig i ganiatâd

ysgrifenedig gan Brif Weithredwr UKHCA neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei ran ef neu hi.

Anfri

90. Bydd aelod-sefydliadau yn derbyn cyfrifoldeb bob amser dros ymddwyn mewn ffordd na fydd yn dwyn anfri ar y sector gofal cartref na'r Gymdeithas.

91. Gall y Gymdeithas ddiddymu aelodaeth o'r UKHCA ble byddai parhau'n aelod yn niweidiol i enw da'r Gymdeithas, neu am unrhyw reswm arall y gall Bwrdd UKHCA ei bennu, gan weithredu'n rhesymol.

Gallai'r Côd Ymarfer hwn gael ei newid a'i addasu o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

Atodiad A. Rheoleiddwyr statudol

(Diweddarwyd Mawrth 2011)

Y rheoleiddwyr statudol adeg ysgrifennu hyn yw:

- **Yn Lloegr:** The Care Quality Commission (CQC). I ddiben y paragraff 47.a.iii. dehonglir yr ymadrodd "rheoleiddiwr statudol" fel Local Government Ombudsman.
- **Yng Nghymru:** Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) / The Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW).
- **Yn yr Alban:** Social Care and Social Work Improvement Scotland (SCSWIS).
- **Yng Ngogledd Iwerddon:** The Regulation and Quality Improvement Authority (RQIA).

Atodiad B. Rheoleiddwyr y Gweithlu

(Diweddarwyd Mawrth 2011)

Rheoleiddwyr y gweithlu adeg ysgrifennu hyn yw:

- **Yn Lloegr:** The General Social Care Council (GSCC), tan ei ddiddymu yn Ebrill 2012.
- **Yng Nghymru:** Cyngor Gofal Cymru (CGC) / Care Council Wales (CCW)
- **Yn yr Alban:** The Scottish Social Services Council (SSSC)
- **Yng Ngogledd Iwerddon:** The Northern Ireland Social Care council (NISCC)

Adeg ysgrifennu, yn ôl y gyfraith, nid oedd raid i weithwyr gofal cartref gofrestru gyda rheoleiddwyr y gweithlu a restrir uchod. Hefyd, mae'n bosib bod yna ddarpariaethau sy'n eithrio rhai gweithwyr rhag cofrestru gydag un o'r cyrff uchod ble maent eisoes wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr cymwys arall ar gyfer y gweithlu.

Gall y wybodaeth yn Atodiadau A a B gael ei diweddaru o bryd i'w gilydd, cyn y tro nesaf i'r Côd Ymarfer gael ei adolygu'n llawn.

Tudalen wedi’i gadael yn wag yn fwriadol.

Tudalen wedi’i gadael yn wag yn fwriadol.

Os oes gennych anghenion penodol sy'n golygu ei bod hi'n anodd i chi ddarllen y ddogfen hon, cysylltwch â 020 8288 5297 neu accessibility@ukhca.co.uk ac fe geisiwn ddod o hyd i ffurf arall sy'n fwy addas i chi.

Diweddaru: Ionawr 2007

Dod i rym: 1af Mai 2007

Adolygiad nesaf: Chwefror 2012

Gall aelod-sefydliadau UKHCA archebu copïau o'r Côd Ymarfer hwn o'r cyfeiriad isod.

Gellir llwytho copïau oddi ar y Rhyngrwyd yn ddi-dâl yn www.ukhca.co.uk/codeofpractice.aspx.

© United Kingdom Homecare Association Ltd, 2007

✉ UKHCA, Group House, 52 Sutton Court Road, Sutton, SM1 4SL

☎ 020 8288 5291

enquiries@ukhca.co.uk

www.ukhca.co.uk